
# Tyfu Cymunedol

## Canllaw i gynghorau tref a chymuned




Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Beth all tyfu cymunedol ei wneud ar gyfer ein cymuned?

Mae prosiectau tyfu cymunedol yn meithrin lles trwy fwyta'n iach, ymarfer corff ac amser a dreulir gydag eraill ym myd natur – maent hefyd yn wych ar gyfer bioamrywiaeth. Maent yn cyd-fynd yn wych â phrosiectau eraill feloergelloedd cymunedol, pantris a banciau bwyd – rhannu bwyd a fyddai fel arall yn mynd yn wastraff a choginio a bwyta gyda'ch gilydd. Mae bwyd yn ffordd wych o gysylltu.




## Pa fath o brosiect tyfu fydd yn gweithio i ni?

Mae cynghorau cymuned a thref mewn sefyllfa dda i feithrin prosiectau tyfu newydd. Yn aml maent yn rheoli neu yn berchen ar dir, maent yn adnabod eu cymunedau yn dda ac wedi'u rhwydweithio'n dda gyda sefydliadau defnyddiol eraill sy'n gallu cynnig cefnogaeth.
Yn dibynnu ar faint o dir sydd gennych ar gael a sydd eisiau cymryd rhan, gall prosiectau tyfu cymunedol amrywio o gwpl o welyau uchel o berlysiau neu ffrwythau, i safle rhandir! Mae sefydlu safle rhandiroedd newydd y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn ond gallwch ddod o hyd i gyngor manwl yn y canllaw hwn a gynhyrchwyd gennym ar gyfer Llywodraeth Cymru.


Canol Tref Bae Colwyn

## Bwyd Bendigedig...

...syniad syml iawn - rydych chi'n plannu bwyd y gall unrhyw un helpu ei hun iddo! Gall fod o gymorth i gael arwyddion ar gyfer ffrwythau a llysiau tymhorol fel bod pobl yn gwybod pryd maen nhw'n barod i'w casglu. Fel arfer caiff ei dyfu gan grŵp o wirfoddolwyr er y gall trigolion a chwmnïau fabwysiadu gwelyau ac ymrwymo i ofalu amdanynt. Ymuno y rhwydwaith a darganfod mwy!

## Gerddi Synhwyraidd...


...mannau prydferth sy'n gwneud defnydd o'n synhwyrau ar gyfer lles. Weithiau maent wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer pobl ag anableddau synhwyraidd megis golwg rhannol neu glyw. Sŵn awel trwy ddail bedw arian neu ddŵr rhedegog, arogl rhosod, jasmin a lafant. Gall rhedeg eich llaw trwy ddail a gweld yr harddwch o'ch cwmpas fod o fudd i bawb yn eich cymuned.

## Perllannau Cymunedol...

...gall fod ar un safle neu goed wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal. Maent yn cynnig cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymunedol gwych – fel suddo gyda gwasg gymunedol – neu wasael. Gellir dosbarthu ffrwythau i'r ysgol a banciau bwyd, eu suddio a'u rhannu. Mae perllannau yn wych ar gyfer bioamrywiaeth. Gallwch blannu mathau o dreftadaeth Gymreig sy'n aml yn gallu gwrthsefyll clefydau ac sy'n gweddu i'n hinsawdd, yn ogystal â gwerth diwylliannol. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth gan sefydliadau fel Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol neu Prosiect y Berllan

## Gerddi Cymunedol...

...lle gall pobl gyfarfod a thyfu gyda'i gilydd - yn ogystal â chynnal digwyddiadau cymdeithasol a dathliadau - yn gallu creu ffocws gwych i drigolion lleol. Maent mor amrywiol â'r lleoedd sy'n eu cynnal! Maent yn debygol o fod angen tipyn o waith cynnal a chadw felly mae grŵp gwirfoddol brwd yn hanfodol. Gallwch gynnwys gwelyau uchel ar gyfer ffrwythau a llysiau, coed ffrwythau, clytiau peillio a mwy. Gallant fod yn fynediad agored neu eu hagor yn ystod oriau golau dydd. Mae'n werth ymweld â rhai gerddi cymunedol lleol i gael syniad o'r hyn fyddai'n gweithio yn eich ardal. Cysylltwch ag Un Llais Cymru am gefnogaeth neu arbenigwyr Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol




## Sut mae dod o hyd i dir addas?

Gall cynghorau cymuned fod yn berchen ar dir addas neu'n ei reoli – y tir y tu allan i ganolfan gymunedol, neu ardal o barc nad yw'n cael ei defnyddio. Os yw awdurdod lleol yn berchen ar dir yn yr ardal leol, mae cynghorau cymuned mewn sefyllfa dda i drafod mynediad. Os oes angen cyngor arnoch cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori Tir Cymunedol (CLAS). Gallant helpu gyda phrydlesi a thrwyddedau yn ogystal ag egluro atebolrwydd. Pan fyddwch chi'n chwilio am dir cofiwch yr agwedd, mynediad, diogelwch, dŵr a bioamrywiaeth.

Os nad oes gennych lawer o dir ar gael peidiwch â phoeni! Gall darnau bach o dir gael effaith fawr gyda gwelyau uchel wrth ymyl meinciau neu ar gornel nas defnyddir gyda phlanhigion lliwgar - beth am roi cynnig ar gymysgedd o berlysiau lluosflwydd a blodau bwytadwy fel Calendula neu Nasturtiums.

## Beth am adael i grŵp gwirfoddol ddefnyddio ein tir?

Os bydd grŵp yn dod atoch ac eisiau mynediad i dir yr ydych yn berchen arno neu'n ei reoli, efallai y bydd gennych rai amheuon. Beth os ydynt yn cael damwain tra ar y tir neu'n creu perygl? Beth os na fyddant yn cynnal y safle? Mae'r rhain yn bryderon dealladwy, ond nid oes angen iddynt eich atal rhag caniatáu i'r hyn a allai fod yn brosiect buddiol iawn gael ei gynnal. Gofynnwch iddynt gynhyrchu cynnig – gyda dyluniad a pheth tystiolaeth o ymgynghori lleol a'u gallu i gynnal y safle. Dylech hefyd ofyn iddynt ysgrifennu Asesiad Risg a dal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwyr.

Gall y Gwasanaeth Cynghori Tir Cymunedol (CLAS) eich helpu i lunio trwydded neu brydles gyda chymalau sy'n nodi'n glir y cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau. Os yw popeth yn glir iawn ar y dechrau, rydych chi'n llawer llai tebygol o wynebu problemau yn y dyfodol.



## A ddylem ni dyfu'n organig?

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau tyfu cymunedol yn defnyddio egwyddorion organig, gan flaenoriaethu iechyd ac ecoleg. Bydd adeiladu pridd iach a gweithio gyda natur o fudd i bobl a natur. Tyfwch blanhigion sy'n addas i'ch sefyllfa chi - yn hytrach na'r rhai sydd angen llawer o baratoi i oroesi - a defnyddiwch dechnegau organig fel plannu cydymaith ac amlddiwylliannau i amddiffyn eich cynnyrch. I gael rhagor o wybodaeth am dyfu organig rhowch gynnig ar wefan Gardd Organig.



Gardd Gymunedol Meadow Street, Cyngor Tref Pontypridd

## Yswiriant

Os ydych eisoes yn rheoli'r tir dan sylw bydd gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus – dim ond rhedeg eich cynlluniau heibio eich yswiriwr ac ysgrifennu Asesiad Risg cyn i chi ddechrau y byddwch yn ei adolygu'n flynyddol. Bydd angen yswiriant atebolrwydd cyflogwyr hefyd ar unrhyw grŵp gwirfoddol. Gallwch ddarganfod mwy am hyn ar wefan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol.

## Sut gallwn ni annog bioamrywiaeth?

Mae dolydd blodau gwyllt yn hwb i beillwyr – mae dros 97% o'n dolydd blodau gwyllt wedi'u colli ac mae llawer o fannau gwyrdd mewn trefi a phentrefi yn 'ddolydd yn aros' gyda'r banc hadau blodau gwyllt brodorol yn aros yn y pridd – mae'r planhigion brodorol hyn yn yn fwy buddiol na blodau unflwydd lliwgar a werthir yn aml fel cymysgeddau o hadau blodau gwyllt. Mae Plantlife â llawer o adnoddau gwych i helpu.

Mae gwrychoedd mor bwysig i natur gyda digonedd o gynefin a bwyd drwy gydol y flwyddyn. Gall blychau ystlumod ac adar mewn coed helpu i ddarparu cartrefi ac mae eu gwneud yn weithgaredd difyr. Gall camera blwch nythu ennyn diddordeb pawb yn y broses hudolus o adar bach yn magu. Mae gwestai pryfed yn hwyl i'w gwneud a gallant fod yn ddeniadol a hyd yn oed yn brydferth!

Mae dŵr yn ychwanegu dimensiwn cwbl newydd i ofod tyfu. Gall fod yn anodd rheoli risg mewn man cyhoeddus ond bydd hyd yn oed nodweddion cyforgorsydd bas yn denu toreth o fywyd gwyllt.

## Arwyddion a Gwaith Celf

Mae arwyddion yn bwysig mewn unrhyw ofod tyfu – ni fydd llawer o bobl sy'n cerdded drwyddo o reidrwydd yn gwybod beth sy'n digwydd – bydd arwyddion hardd yn eu helpu i ddeall ac ymgysylltu. Mae celf yn gwella unrhyw ofod cymunedol – mae yna bobl greadigol ym mhob cymuned yng Nghymru! Chwiliwch amdanynt a'u hannog i gyfoethogi eich gardd gyda chelf a cherfluniau hardd, boed yn fyrhoedlog neu'n barhaol.




Cae Crwn, Criccieth - gwaith celf gan Cynghorydd Ffion Gwyn, Cyngor tref Cricieth

Cysylltwch Un Llais Cymru am fwy o gefnogaeth a chyngor gyda'ch prosiect tyfu cymunedol.

## Dolenni Fuddiol

- www.communityfridgemap.org.uk/about
- www.gov.wales/allotments-and-community-gardens
- www.incredibleedible.org.uk
- www.farmgarden.org.uk/your-area/wales
- www.theorchardproject.org.uk
- www.farmgarden.org.uk/clas
- www.farmgarden.org.uk/clas/wales
- www.gardenorganic.org.uk
- www.plantlife.org.uk
- www.farmgarden.org.uk/resources/insurance-key-issues-consider
- www.onevoicewales.org.uk/OVWWeb/Default.aspx

# Nodiadau